

Ymgynghoriad Ysgolion 21ain Ganrif 2018

Gwella darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae'r twf yn y boblogaeth yn golygu bod twf hefyd yn nifer y dysgwyr y mae arnyn nhw angen lle mewn ysgol arbennig neu le â sail adnoddau arbenigol.

Mae 7 o ysgolion arbennig yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer anghenion addysg 570 o ddisgyblion 4-19 oed. Mae cyfres o gynigion yn eu lle i ehangu, ac mewn rhai achosion, addasu lefel y ddarpariaeth bresennol i ddiwallu'r anghenion hyn.

CYNIGION YN YMWNEUD AG YSGOLION UNIGOL

YSGOL GYNRADD ALLENSBANK

Cynnig i waredu'n raddol y ganolfan adnoddau arbennig a ddynodwyd i ddisgyblion â nam ieithyddol penodol ac agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag 8 lle (cohort 1af Medi 2019)

GREENHILL SCHOOL

11-16 ar hyn o bryd, cynnig i ehangu'r ystod oedran i 19 er mwyn sicrhau gwell pontio i gyflogaeth, coleg neu hyfforddiant

YSGOL ARBENNIG THE HOLLIES

cynnydd yn nifer y disgyblion i 138. Symud i safle wedi ei rannu yn defnyddio hen safle Glan Morfa a chyflwyno opsiwn i ddisgyblion aros yn yr Hollies o 11 i 14 oed.

YSGOL ARBENNIG MEADOWBANK

Lleoedd gwag ar hyn o bryd. Cynnig i ymestyn dynodiad yr ysgol o anawsterau iaith penodol i gynnwys anabledau dysgu cymhleth.

YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU FORWYN FAIR

Dim cymorth arbenigol ar hyn o bryd. Cynnig i agor adnodd ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion (yn rhan o adeilad newydd yn y dyfodol).

YSGOL ARBENNIG Tŷ GWYN

Cynnig i gynyddu'r nifer lleoedd i 198 drwy osod 3 ystafell dodosbarth newydd, gan gynnwys ailddatblygu canolfan ieuencid Trelái.

YSGOL GLANTAF

Mae gan yr ysgol sylfaen adnoddau arbenigol. Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd i 30.

YSGOL PWLL COCH

Dim cymorth arbenigol ar hyn o bryd. Cynnig i agor adnodd ar gyfer 10 i gychwyn (gyda'r posibilrwydd o gynyddu i 20) mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg.

RYDYN NI AM GLYWED EICH BARN!

Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau neu oes gennych gwestiynau neu bryderon yr hoffech eu codi? Drwy wrando'n effeithiol yn ystod y cyfnod hwn, ein nod yw diogelu'r hyn sydd fwyaf pwysig a mynd i'r afael ag unrhyw ofidion wrth symud ymlaen.

Gellir gweld gwybodaeth gefnogol yn ymwneud â'r cynigion penodol a'r ymgynghoriad mewn nifer o ffyrdd.

- Ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Copïau papur mewn ysgolion, llyfrgelloedd a Hybiau
- Ar gael ar gais drwy gysylltu â ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk



MAE'R YMGYNGHORIAD AR AGOR O 30 IONAWR I 13 MAWRTH 2018